# 10 offeryn craffu ar gyfer Aelodau o'r Senedd

Dyma 10 ffordd y gall Aelodau o'r Senedd ddwyn Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd a chyrff cyhoeddus i gyfrif.

Mae manylion llawn y pwerau sydd ar gael i Aelodau wedi'u nodi yn **Neddf Llywodraeth Cymru 2006** a'r **Rheolau Sefydlog**, sef y rheolau ar weithdrefnau'r Senedd.

**1**

## Penodiadau allweddol Llywodraeth Cymru a'r Senedd

Mae Aelodau o'r Senedd yn pleidleisio ar enwebion ar gyfer: rôl Prif Weinidog Cymru, y Llywydd, y Dirprwy Lywydd(ion); Chadeiryddion y Pwyllgorau ac ar gyfer Comisiwn y Senedd. Rhaid i enwebeion ennill mwyafrif o bleidleisiau gan Aelodau o'r Senedd. Maent hefyd yn pleidleisio dros dewis y Prif Weinidog ar gyfer rôl y Cwnsler Cyffredinol (y prif swyddog cyfreithiol).

**2**

## Cwestiynau Seneddol

Gall Aelodau ofyn cwestiynau ysgrifenedig a chwestiynau llafar i'r Prif Weinidog, i Weinidogion, i'r Cwnsler Cyffredinol ac i Gomisiwn y Senedd. Cynhelir cwestiynau llafar i'r Prif Weinidog yn wythnosol, tra bod cwestiynau llafar i Weinidogion eraill yn digwydd yn eu tro. Gall Aelodau ofyn cwestiynau amserol gyda chaniatâd y Pwyllgor Busnes.

**3**

## Cwestiynau brys

Gall Aelodau ofyn cwestiynau llafar brys ar faterion o bwys cenedlaethol. Y Llywydd sy'n penderfynu a yw cwestiwn yn cyrraedd y trothwy hwn.

**4**

## Dadleuon brys

Gall Aelodau ofyn am ddadleuon ar faterion o bwys cyhoeddus brys. Os caiff y cynnig gefnogaeth yr Senedd, rhaid i ddadl gael ei chynnal yn ystod y sesiwn honno neu'r un ganlynol. Y Llywydd sy'n gyfrifol am benderfynu a yw'r mater dan sylw o bwys cyhoeddus brys.

**5**

## Cynigion a dadleuon

Mae gan Aelodau nifer o gyfleoedd eraill i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn y Cyfarfod Llawn, megis cynnal dadleuon a diwygio unrhyw gynnig cyn pleidleisio arno. Hefyd, gall Aelodau gymryd rhan mewn balot i arwain dadl fer.

# 10 offeryn craffu ar gyfer Aelodau o'r Senedd

**6**

## Deddfwriaeth

Mae Aelodau yn craffu ar yr holl gyfreithiau sy'n cael eu gwneud yn y Senedd. Gallant ddiwygio Biliau'r Senedd, y mae'n rhaid iddynt sicrhau mwyafrif yn y Senedd i ddod yn gyfraith. Nid yw'r Aelodau yn gallu diwygio darnau o is-ddeddfwriaeth, ond mae ganddynt bwerau i bleidleisio arnynt, i'w cadarnhau neu i'w dirymu yn dibynnu ar y weithdrefn berthnasol. Mae Aelodau o'r Senedd hefyd yn pleidleisio ar a ddylid rhoi cydsyniad i Filiau'r DU sy'n gwneud cyfreithiau mewn meysydd datganoledig. Nid yw hyn yn rhwymo Senedd y DU, ond mae'n gonfensiwn gwleidyddol pwysig.

**7**

## Y gyllideb

Aelodau sy'n gyfrifol am gymeradwyo cyllideb flynyddol a chyllidebau atodol Llywodraeth Cymru, mwyafrif syml sydd ei angen i basio'r cyllidebau hyn. Mae Aelodau hefyd yn cymeradwyo cyllideb flynyddol Comisiwn y Senedd.

**8**

## Y Pwyllgorau

Gall aelodau eistedd ar sawl pwyllgor sy'n arbenigo mewn craffu ar Lywodraeth Cymru mewn gwahanol feysydd.Gall Pwyllgorau gynnal ymchwiliadau, casglu tystiolaeth, craffu ar wariant a deddfwriaeth, a holi Gweinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus.

**9**

## Pŵer i alw

Mae gan y Senedd bŵer i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddod i drafodion y Senedd i roi tystiolaeth neu i gyflwyno dogfennau sydd yn eu meddiant sy'n berthnasol i'r broses o arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

**10**

## Cynigion o ddiffyg hyder

Gall Aelodau gyflwyno cynnig o ddiffyg hyder yn Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd. Rhaid i o leiaf 10 Aelod gyflwyno cynnig er mwyn iddo gael ei ystyried. Os bydd mwyafrif o Aelodau yn pleidleisio i gytuno nad oes gan Lywodraeth Cymru hyder y Senedd mwyach, yna rhaid i'r Llywodraeth ymddiswyddo. Gall Aelodau hefyd gyflwyno cynigion o ddiffyg hyder mewn Gweinidogion unigol, ond pleidleisiau symbolaidd yw'r rhain.